Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**The Old Vicarage**

**The Old Vicarage**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF35 6EL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 10 Awst 2021

10/08/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# The Old Vicarage

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Values in Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29/11/2018 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nod y gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n gwneud ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn ymddangos yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael, ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol amlwg â'r staff sy'n darparu eu gofal. Mae gan y staff ddealltwriaeth glir o anghenion y bobl ac maent yn darparu gofal â chynhesrwydd, urddas a pharch. Mae'r dogfennau gofal yn drylwyr ac yn gadarn, ac mae tystiolaeth bod y gwasanaeth yn manteisio ar gymorth allanol yn ôl yr angen. Caiff y bobl ofal mewn amgylchedd dymunol sy'n ddiogel ac yn diwallu eu hanghenion. Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i ymgysylltu'n gymdeithasol yn y cartref ac yn y gymuned. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi; maent yn hapus yn eu rolau ac maent yn cael hyfforddiant a sesiynau goruchwylio. Mae mesurau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel a cheir tystiolaeth y gall y gweithwyr gofal ddiwallu anghenion corfforol ac emosiynol y bobl. Mae'r rheolwyr yn recriwtio'n ddiogel ac yn rhoi cymorth i'r staff yn eu rolau. Mae amgylchedd y cartref yn ddiogel, yn gyfforddus ac yn addas at y diben. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda.

## Llesiant

Mae gan y bobl lais a chânt eu trin â pharch ac urddas. Mae'r cynlluniau personol yn gyfredol, yn fanwl ac yn adlewyrchu anghenion presennol y bobl yn gywir. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn sylwgar ac yn barchus a bod ganddynt gydberthynas dda â'r bobl yn ystod yr arolygiad. Mae perthnasau'r bobl yn canmol y gwasanaeth ac yn ddiolchgar am lefel y gofal a ddarperir. Mae'r sylwadau'n cynnwys: "*very happy with the care*" *(yn fodlon iawn ar y gofal)*, "*I have no concerns*" *(does gen i ddim pryderon)* a "*the staff are very friendly*" *(mae'r staff yn gyfeillgar iawn)*. Ar y cyfan, roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn canmol lefel y cyfathrebu yn y gwasanaeth, ond byddai rhai yn gwerthfawrogi mwy.

Mae'r cartref yn hybu iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl. Mae trefniadau da ar waith i reoli meddyginiaeth yn y gwasanaeth, ac roedd y tîm rheoli'n archwilio'r trefniadau hyn yn rheolaidd. Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm cyson o staff sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n gallu nodi unrhyw ddirywiad yn iechyd y bobl yn gyflym, er mwyn gwneud atgyfeiriadau amserol at ymarferwyr meddygol perthnasol.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu, ac felly maent yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl ac yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Gwelsom fod trefniadau diogelu priodol ar waith ar gyfer y bobl hynny y mae ganddynt alluedd cyfyngedig, a chytunwyd ar y rhain er budd pennaf y bobl dan sylw. Mae polisi diogelu cadarn ar waith yn y gwasanaeth ac mae'r rheolwr yn ymwybodol o'r Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan newydd, sydd wedi cael eu rhannu â'r staff.

Mae'r unigolion yn byw mewn llety addas sy'n cefnogi ac yn annog eu llesiant. Mae eu hystafelloedd yn cynnwys eitemau personol o'u dewis a dodrefn addas i annog eu hannibyniaeth a'u galluogi i gael amser preifat. Mae cynlluniau ar waith i wneud gwaith adnewyddu yn y dyfodol, ynghyd â gwaith atgyweirio a nodwyd, a chaiff gwiriadau iechyd a diogelwch perthnasol eu cwblhau.

Mae trefniadau goruchwylio boddhaol ar waith yn y gwasanaeth. Mae ymweliadau rheolaidd gan yr unigolyn cyfrifol wedi ailddechrau yn dilyn cyfyngiadau COVID-19 a gwelsom yr adroddiad diweddaraf o'r ymweliad hwn.

## Gofal a Chymorth

Roedd yn ymddangos bod y bobl yn mwynhau'r hyn roeddent yn ei wneud a gwelwyd bod ganddynt gydberthynas gyfforddus â'r staff sy'n rhoi cymorth iddynt.  Er mwyn cadw'r bobl yn iach, mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr proffesiynol perthnasol mewn modd amserol, gan fynd ati'n weithredol i gefnogi'r bobl mewn meysydd pwysig, megis bwyta'n iach a chadw'n heini. Gan fod y staff yn adnabod y bobl yn dda, rhai ohonynt ers nifer o flynyddoedd, gallant nodi newidiadau yn eu hiechyd, eu hwyliau a'u llesiant, a gweithredu'n briodol.

Mae'r gweithwyr gofal yn addasu eu gofal a'u cymorth ar gyfer sefyllfa pob unigolyn, yn unol â Datganiad o Ddiben y gwasanaeth. Mae'r cynlluniau gofal yn disgrifio'r unigolyn yn dda, maent yn fanwl ac yn adlewyrchu anghenion unigol y bobl. Mae asesiadau risg unigol yn nodi anghenion penodol y bobl a'r strategaethau i'w diogelu. Maent yn cael adolygiadau yn rheolaidd ond cânt eu cynnal yn ôl yr angen hefyd, er enghraifft i adlewyrchu newid i anghenion gofal. Mae'r gweithwyr gofal yn gwneud nodiadau dyddiol i ddogfennu'r cymorth y maent yn ei roi. Mae'r nodiadau'n llawn gwybodaeth, yn fyfyriol ac yn helpu i wella'r gofal. Mae hyn yn helpu i roi cyfarwyddyd da i'r gweithwyr gofal o ran sut i gefnogi'r bobl, yn unol â'u hanghenion penodol. Mae systemau ar waith yn y gwasanaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Caiff meddyginiaeth ei storio'n briodol ac mae'r staff yn cwblhau gwiriadau tymheredd perthnasol bob dydd. Ni welsom unrhyw fylchau yn y cofnodion rhoi meddyginiaeth.

Mae'r staff yn mynd ati'n rhagweithiol i leihau'r risg o niwed a chamdriniaeth i'r bobl gymaint â phosibl. Maent yn cael hyfforddiant i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n hyderus wrth godi materion neu bryderon gyda'u rheolwr, ac maent yn ymwybodol o Bolisi Chwythu'r Chwiban y Gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn dilyn canllawiau priodol ar gyfer y mesurau rheoli heintiau a'r arferion ymweld sydd ar waith, ac mae digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael. Mae polisïau a hyfforddiant staff ar reoli meddyginiaeth ar waith er mwyn hyrwyddo arferion da. Mae'r gwasanaeth yn trefnu i weithwyr iechyd proffesiynol perthnasol adolygu meddyginiaeth y bobl yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth a ragnodir yn addas o hyd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion, yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl ac yn sicrhau ymdeimlad o lesiant. Gall y bobl bersonoli eu hystafell gyda lluniau, dodrefn ac eitemau bach i gofio, sy'n helpu i greu naws gartrefol. Nid oes unrhyw bobl yn rhannu ystafelloedd.  Roedd yn ymddangos bod pob rhan o'r cartref yn weithredol ac mewn cyflwr da, ac roedd yn edrych yn gyfforddus ac yn gartrefol hefyd. Mae'n ymddangos bod safon glendid a hylendid y cartref yn dda. Mae'r gegin a'r cyfleusterau golchi dillad yn addas ar gyfer maint y cartref. Mae ardal awyr agored ddymunol gyda thrampolîn newydd i'w ddefnyddio pan fydd y tywydd yn braf.

Caiff y bobl fudd o ymrwymiad y gwasanaeth i sicrhau arferion diogel. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel. Mae'r ffeiliau cynnal a chadw yn dangos bod y cyfleustodau, y cyfarpar a'r nodweddion diogelwch tân yn cael eu harchwilio a'u gwasanaethu'n rheolaidd a'u bod yn gyfredol. Caiff ffeiliau gofal a meddyginiaeth eu cadw dan glo er mwyn sicrhau cyfrinachedd a diogelwch. Mae gan bob unigolyn sy'n byw yn y cartref gynllun personol ar gyfer gadael yr adeilad mewn argyfwng sy'n benodol i'w anghenion cymorth ac mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd.

## Arwain a Rheoli

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys y wybodaeth ofynnol yn ôl y gyfraith ac yn dangos bod gweithdrefnau recriwtio a fetio priodol ar waith. Mae gan y staff gofal gymhwyster perthnasol. Mae staff newydd yn cwblhau rhaglen sefydlu eang. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ac arbenigol parhaus, i ddiwallu anghenion penodol yr unigolyn. Maent yn dweud eu bod yn fodlon ar yr hyfforddiant sydd ar gael. Maent yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd er mwyn myfyrio ar eu perfformiad, nodi unrhyw hyfforddiant neu gymorth y gallai fod eu hangen arnynt a thrafod unrhyw broblemau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod y tîm rheoli yn gefnogol, gan ddweud "*I love working here*" *(rwyf wrth fy modd yn gweithio yma)*, "*the manager is amazing, very supportive*" *(mae'r rheolwr yn wych ac yn gefnogol iawn)* ac "*I enjoy my job*" *(rwy'n mwynhau fy swydd)*.

Mae gan y gwasanaeth weledigaeth ac ethos clir. Mae ei nodau, ei werthoedd, a'r cymorth a ddarperir wedi'u nodi yn y Datganiad o Ddiben mewn ffordd dryloyw. Mae canllaw ysgrifenedig ar gael i'r bobl yn y gwasanaeth, sy'n cynnwys gwybodaeth ymarferol am y cartref, a'r cymorth a ddarperir. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig gwahanol gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i'r bobl a'u cynrychiolwyr ofyn cwestiynau a rhoi adborth.

Mae'r gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth ac yn darparu gofal a chymorth o ansawdd o ganlyniad i'w drefniadau llywodraethu, archwilio a sicrhau ansawdd cadarn. Mae'r systemau hyn yn helpu'r gwasanaeth i hunanwerthuso a nodi lle y mae angen gwneud gwelliannau. Mae'r gwasanaeth yn pennu safonau uchel iddo'i hun ac yn monitro i ba raddau y mae'n eu cyrraedd.
Mae polisïau a gweithdrefnau perthnasol a chyfredol ar waith i ategu hyn. Er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel, mae'r rheolwyr yn ymateb yn brydlon ac yn briodol i ddigwyddiadau, damweiniau a materion diogelu. Nid yw'r gwasanaeth wedi cael unrhyw gwynion na phryderon yn ddiweddar ond mae prosesau ar waith i ddelio â nhw yn brydlon ac yn briodol os bydd angen.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi ei gyflawni |
| --- |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
| --- | --- |
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 28/09/2021